LANEq342

# Trin a llwytho ceffylau rasio i mewn i safleoedd cychwyn cyn ras

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thrin a llwytho ceffylau rasio i mewn i safleoedd cychwyn cyn ras. Mae'n gofyn am gyswllt gyda swyddogion a jocis.  Mae hefyd yn cynnwys trin ceffylau cyn ac yn ystod mynd i mewn i'w safleoedd, gan sicrhau bod gweithdrefnau diogel yn cael eu dilyn bob amser.

Mae'r safon yn gofyn am waith tîm agos cyn dechrau'r ras yn ogystal â threfniadau gwaith prydlon a chywir.

Mae'r safon hon hefyd yn cynnwys cynnal a chadw cyffredinol, defnydd a symud safleoedd cychwyn ar gae rasio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. sefydlu'n glir eich rôl a'ch cyfrifoldebau gyda thîm y safleoedd cychwyn
3. gwirio safleoedd cychwyn am ddiogelach a gweithrediad cyn ras
4. dewis y ceffyl rasio penodol a chysylltu â swyddogion a'r jocis ar gyfer y drefn gywir ar gyfer llwytho
5. trin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles anifeiliaid ac sydd yn cynnal iechyd a diogelwch.
6. cadarnhau trefniadau gyda'r joci a'r swyddogion, yn cynnwys cynorthwyo os oes angen gwneud gwiriadau terfynol i harneisiau/pedolau
7. trin a llwytho ceffylau rasio i mewn i safleoedd cychwyn yn ddiogel ac o fewn y graddfeydd amser cytûn
8. ymateb i geisiadau gan aelodau eraill o'r tîm wrth lwytho ceffylau rasio anodd ac amhrofiadol
9. cau gatiau cychwyn gan sicrhau eich diogelwch eich hun, diogelwch y ceffylau a phobl eraill
10. cynnal yr holl weithdrefnau llwytho yn unol â'r gofynion a'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol
11. cwblhau gwiriadau a chofnodion ar ôl y ras

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich cyfrifoldebau yn ymwneud â gweithdrefnau dechrau'r ras
3. y defnydd o stondinau cychwyn a'u cynnal a'u cadw
4. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal, a lleihau straen i'r ceffyl a'r peryglon i chi eich hun ac i eraill
5. pwysigrwydd gweithdrefnau llwytho cywir a phrydlon
6. seicoleg sylfaenol ceffylau o dan straen
7. sut i drin a llwytho ceffylau rasio gan ystyried amser, diogelwch a lles
8. sut i drin a llwytho ceffylau rasio anodd neu amhrofiadol
9. sut i weithio'n effeithiol mewn tîm
10. sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda chydweithwyr, swyddogion a jocis
11. sut i adnabod a thrin problemau gyda cheffylau a harneisiau
12. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq342

Trin a llwytho ceffylau rasio i mewn i safleoedd cychwyn cyn ras

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq342 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ceffylau rasio; safleoedd |